I'r holl fyd

OFFRWM Y PASG 2020

TREFN Y GWASANAETH

Paratowyd y gwasanaeth i'w ddefnyddio'n lleol gydag Offrwm y Pasg gan Ferched Methodistaidd ym Mhrydain ar ran Cronfa'r Genhadaeth Fyd-eang. Mae'r weithred hon o addoliad yn galluogi'r Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain ac Iwerddon i gyfrannu at waith ein 65 Partner Eglwys dramor.

Merched Methodistaidd ym Mhrydain

Yr Eglwys **Fethodistaidd**

*Byw yn **hael***

Galwad i addoli

Medd y salmydd:

"Bydded Duw yn drugarog wrthym a'n bendithio, bydded llewyrch ei wyneb arnom,
er mwyn i'w ffyrdd fod yn wybyddus ar y ddaear,
a'i waredigaeth ymysg yr holl genhedloedd.

Bydded i'r bobloedd dy foli, O Dduw, bydded i'r holl bobloedd dy foli di.

Bydded i'r cenhedloedd lawenhau a gorfoleddu, oherwydd yr wyt ti'n barnu pobloedd yn gywir, ac yn arwain cenhedloedd ar y ddaear.

Bydded i'r bobloedd dy foli, O Dduw, bydded i'r holl bobloedd dy foli di."

Salm 67:1-5 (BCND)

Yntred

I'w chanu gan y gynulleidfa neu gan gôr.

CFf 222 Tyrd atom ni

Croeso

Croeso i oedfa Offrwm y Pasg.

Thema eleni yw **'I'r holl fyd'** a byddwn yn sôn am deithiau yr aeth gwahanol bobl arnynt: rhai er mwyn ufuddhau i alwad Duw yn eu bywydau, eraill am nad oedd ganddynt ddewis. Dewiswyd y thema am ein bod eleni yn cofio 400 mlwyddiant mordaith y *Mayflower*, ac mae hefyd yn 260 o flynyddoedd ers dechreuad y genhadaeth Fethodistaidd a arweiniodd at sefydlu Eglwys Fethodistaidd y Caribî a'r Amerig sef MCCA.

Yn ystod y gwasanaeth hwn, byddwn yn cysegru Offrwm y Pasg. Mae'r holl roddion yn mynd i Gronfa Cenhadaeth Fyd-eang yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain. Wrth inni wrando a myfyrio ar hanes teithiau pobl mewn gwahanol rannau o'r byd ac ar wahanol gyfnodau mewn amser, byddwn hefyd yn ystyried ein taith ninnau, yn gorfforol ac yn ysbrydol, ac yn ceisio arweiniad Duw i weld pa lwybr y mae'n ein galw ninnau i'w ddilyn.

Emyn

CFf 358 Gwyn a gwridog, hawddgar iawn

Gweddïau o addoliad a diolch

I Ti, O Dduw, Dad, Mab ac Ysbryd Glân, yr offrymwn ein moliant a'n diolch.

Arglwydd Dduw, deuwn ynghyd yn dy bresenoldeb di gan roddi i ti ogoniant ac anrhydedd. Dyrchafwn dy enw sanctaidd a bendigwn di, yr unig wir a bywiol Dduw, am y cyfan a wnaethost ac yr wyt yn parhau i'w wneud yn ein plith.

Diolchwn i ti am y teithiau a'n harweiniodd yma heddiw a diolchwn dy fod yn parhau i alw pobl i ailgymodi â thi dy hun. Diolchwn fod gennyt gynllun a phwrpas ar gyfer pob un ohonom, a'th fod yn ein galw i offrymu ein bywydau i'th wasanaeth.

Diolchwn dy fod wedi addo na fyddi byth yn ein gadael na chefnu arnom ac y byddi gyda ni hyd ddiwedd amser. Diolch i ti dy fod gyda ni trwy nerth yr Ysbryd Glân a gweddïwn y cawn drwy gyfrwng yr oedfa hon nesáu atat a dod yn fwy cymwys i'th wasanaethu di, ble bynnag y cawn ein harwain ar ein taith. **Amen.**

Taith 1

Mordaith y *Mayflower:* taith i ffoi rhag erledigaeth

Salm 139

Gellir ei darllen yn atebiadol

Taith 2

Y Parchedig Thomas Coke: taith i bregethu'r efengyl

Emyn

CFf 154 Fe ddaeth ddoe â'i siâr o ofid

Gweddi o gyffes

Fe'ch gwahoddir i ymuno yn yr ymateb sydd mewn print tywyll.

Arglwydd Iesu Grist, rwyt yn ein galw i'th ddilyn o ddydd i ddydd,
ond cyffeswn na fuom bob amser yn ufudd i'th alwad.

Rydym wedi dy anrhydeddu â'n gwefusau
ond buom yn amharod i godi ein croes a cherdded y llwybr anodd.

Arglwydd y daith:
Maddau inni a helpa ni i'th ddilyn.

Aeth gwahanol bethau â'n bryd ac fe'n llethwyd gan ofalon y byd hwn,
nes inni fethu gweld y rhai oedd mewn angen o'n cwmpas.

Arglwydd y daith:
Maddau inni a helpa ni i'th ddilyn.

Fe wnaethom anghofio nesáu atat Ti er mwyn cael nerth ar gyfer ein taith Gristnogol.

Arglwydd y daith:
Maddau inni a helpa ni i'th ddilyn.

Buom yn hunanddigonol, gan beidio â gofyn i'n chwiorydd a'n brodyr am gymorth ar y daith.

Arglwydd y daith:
Maddau inni a helpa ni i'th ddilyn

Aethom yn ansensitif i'r rhai o'n hamgylch sydd yn teithio o ganlyniad i amgylchiadau anodd.

Arglwydd y daith:
Maddau inni a helpa ni i'th ddilyn.

Fe wnaethom anghofio bod yn ddiolchgar am y rhai a deithiodd ar y ffordd Gristnogol o'n blaenau, yr ydym ninnau'n adeiladu ar y sylfeini a osodwyd ganddynt.

Arglwydd y daith:
Maddau inni a helpa ni i'th ddily

Arglwydd, maddau i ni pan nad ydym wedi cerdded y llwybr y'n galwyd iddo a helpa ni i fod yn ufudd i'th alwad di yn ein bywydau wrth inni geisio cyflawni dy ewyllys ddaionus, gymeradwy a pherffaith ar ein cyfer.

Diolch i ti dy fod wedi addo yn dy air, os cyffeswn ein pechod, dy fod yn ffyddlon a chyfiawn i faddau i ni a'n glanhau oddi wrth bob anghyfiawnder. Amen.

Taith 3

Dorothy Ripley: taith i godi llais dros gyfiawnder

Emyn

CFf 757 I ti dymunwn fyw, O Iesu da

Taith 4

Tommy a Mabel: taith i ennill bywoliaeth

Darlleniad

Genesis 12:1-5

Taith 5

Angleena Keizer: taith i ddod â thangnefedd Duw

Darlleniad

Mathew 28:16-20

Myfyrdod *(dewisol)*

Teithiau

Gweddïau o eiriolaeth

Fe'ch gwahoddir i ymuno yn yr ymateb sydd mewn print tywyll.

Darllenydd 1

Yn dal glôb neu fap o'r byd.

Gweddïwn dros y rhai sydd yn teithio yn ein byd. Dros y rhai sydd wedi teithio ymhell oddi cartref er mwyn dod â goleuni'r Iesu… Dros y rhai a orfodwyd i adael eu cartrefi o achos gwrthdaro, cyni neu drychinebau naturiol.

Arglwydd yn dy drugaredd:
Gwrando ein gweddi.

Darllenydd 2

Yn dal map o Gymru neu rywbeth i gynrychioli croeso.

Gweddïwn dros y rhai a deithiodd i'n gwlad o rannau eraill o'r byd… Dros y rhai sy'n ceisio helpu pobl i ymgartrefu yn eu hamgylchfyd newydd… Gweddïwn y bydd i ni bob amser gynnig croeso i'r rhai a ddaw i'n plith… Gweddïwn dros ein harweinwyr, yn lleol ac yn genedlaethol, ar iddynt lywodraethu yn ddoeth a thrugarog.

Arglwydd yn dy drugaredd:
Gwrando ein gweddi.

Darllenydd 3

Yn dal cadwyn neu gadwyn bapur.

Gweddïwn dros ein chwiorydd a'n brodyr Cristnogol sy'n cael eu herlid am eu ffydd – yn enwedig mewn gwledydd lle mae erledigaeth ddwys… Gweddïwn dros y rhai a orfodir i ffoi rhag erledigaeth a'r rhai sy'n cael eu gwahanu oddi wrth eu hanwyliaid.

Arglwydd yn dy drugaredd:
Gwrando ein gweddi.

Darllenydd 4

Yn dal map o'r pentref, tref neu ddinas lle cynhelir y gwasanaeth, neu deithlyfr sy'n disgrifio'r ardal.

Gweddïwn dros y bobl yn ein cymuned ni… Gweddïwn y byddwn ni, dy Eglwys, yn halen a goleuni wrth inni ymestyn allan â'th gariad at ein cymdogion. Gweddïwn dros y gwahanol fusnesau, grwpiau lleol a mudiadau sy'n weithgar yn ein hardal.

Arglwydd yn dy drugaredd:
Gwrando ein gweddi.

Darllenydd 5

Yn dal pâr o esgidiau cerdded.

Gweddïwn dros rai yr ydym yn eu hadnabod ac y mae eu taith yn anodd ar hyn o bryd… Dros y rhai y mae llwybr eu bywyd yn greigiog, yn unig neu'n frawychus. Boed i ni ddangos dy gariad tuag at y bobl o'n hamgylch a chydgerdded â hwy drwy weddi a chymorth ymarferol.

Diolchwn i ti dy fod bob amser yn gwrando ac yn ateb ein gweddïau, y rhai llafar a'r rhai tawel. Offrymwn ein holl weddïau yn awr i ti yn enw Iesu Grist ein Harglwydd.
Amen.

Gweddi'r Arglwydd

Emyn

CFf 803 A wyt ti'n un i fentro?

– Cesglir Offrwm y Pasg i gyfeiliant cerddoriaeth –

Dywedwn gyda'n gilydd:

Arglwydd fel y gelwaist bobl drwy'r oesoedd i deithio yn dy gwmni, gofynnwn yn awr i Ti fendithio'r arian hwn a'r rhai sydd wedi ei roi. Boed i'r rhoddion hyn i Gronfa'r Genhadaeth Fyd-eang gael eu defnyddio'n ddoeth fel y daw pobl i adnabod cariad Iesu Grist.

Gweddïwn dros y rhai sy'n teithio i gydweithio â'n Partner Eglwysi wrth iddynt ddod â gogoniant i'th enw ac ymdrechu i sefydlu dy deyrnas drwy'r holl fyd. Gweddïwn y bydd i ninnau, gyda hwy, fod yn ufudd i'th alwad yn ein bywydau ble bynnag y bydd hynny yn ein harwain.
Amen.

Gweithgaredd er mwyn ymateb

(Dewisol)

Myfyrio ar y daith

Emyn

CFf 586 Duw y cariad nad yw'n oeri

Bendith

Wrth inni ymadael i barhau ein taith gyda Duw, gwrandewch eiriau'r Iesu:

"Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi. Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser."

Mathew 28:19-20 (BCND)

Os hoffech ddarllen storïau Teithiau 1-5, a ddefnyddir yn y gwasanaeth hwn, yn llawn a gweld y lluniau sy'n mynd gyda hwy, ewch i wefan Merched Methodistaidd ym Mhrydain www.mwib.org.uk

Hawlfraint Ymddiriedolwyr dros Ddibenion yr Eglwys Fethodistaidd, 2019. Rhif Elusen Cofrestredig 1132208
Mae gwybodaeth i'w chael ynglŷn â chenhadaeth fyd-eang yr Eglwys yn **www.methodist.org.uk/global-relationships** e-bost: gr.admin@methodistchurch.org.uk. ffôn: 020 7486 5502, 25 Marylebone Road, London NW1 5JR